ASESIAD A CHYNLLUN GWASTRAFF RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU

CYFARFOD Y GRŴP TECHNEGOL RHANBARTHOL

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 ydd Ebrill 2003, am 10.00am
Y Ganolfan Ddinesig, Penllergaer

Presennol

Geoff White	CBS Castell-nedd Port Talbot
Ceri Morris	CBS Castell-nedd Port Talbot
Howell Beaton	CBS Castell-nedd Port Talbot
Alban Forster	SLR Consulting Cyf
Tony Yates	SLR Consulting Cyf
Sue Martin	Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol
Cathy O'Brien	Uned Strategaeth Cymru (LlCC)
Niall Reynolds	Asiantaeth Amgylchedd Cymru
Steve Thomas	Asiantaeth Amgylchedd Cymru
Ruth Brown	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Carol Williams	Cyngor Sir Benfro/ Parc Cenedlaethol Sir Benfro
Nick Oakes	Cyngor Sir Ceredigion
Richard Jones	WESA
Alison Thomas	Dinas a Sir Abertawe
Graham Dorrington	Cyngor Sir Ceredigion
Neil Bateman	Cyngor Sir Caerfyrddin
Gareth Jones	Cyngor Sir Caerfyrddin

1. **Ymddiheuriadau**

Clifford Parish	Dinas a Sir Abertawe
Steve Bool	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Huw Roberts	Cyngor Sir Benfro
Eifion Bowen	Cyngor Sir Caerfyrddin
Ifor Jones	Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro

2. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20fed Medi 2002**

Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir ac nid oedd unrhyw faterion yn codi.

3. **Cofnodion y Seminar a gynhaliwyd ar 31ain Ionawr 2003**

Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir ac nid oedd unrhyw faterion yn codi.

4. **Adroddiad Asesiad Cynaliadwy**

Rhoddwyd cyflwyniad gan AF ynghylch Drafft Cam 2b– Adroddiad Asesiad Cynaliadwy. Dosbarthwyd copi o'r cyflwyniad ac o ganlyniad, nid oes angen ymhelaethu.

Bu trafodaeth wedyn a nodwyd y pwyntiau allweddol canlynol:

- Opsiwn 2 (strategaeth Thermol) – byddai nifer o broblemau gwleidyddol ynghlwm wrth honno;
- Mae angen darganfod pam mae cymaint o wahanol farn ynghylch yr 'opsiwn dewisol'. Nodwyd i adroddiad y De-ddwyrain nodi Opsiwn 2 fel yr opsiwn lleiaf ddewisol. Mae'n bwysig gwybod pam mae hyn wedi digwydd;
- Nid yw'r Adroddiad Asesiad i'w weld yn ystyried barn cynllunwyr. Mae diffyg gwybodaeth o ran

amlinellu pa oblygiadau sydd ar gyfleusterau/ defnydd o'r tir;
- Nodwyd y byddai angen cynnydd sylweddol yn y nifer o gyfleusterau ar bob opsiwn, er gofynnwyd am eglurhad ynghylch sut mae'r sefyllfa hon yn cyd-fynd â'r cyfleusterau sy'n bodoli eisoes. Cytunwyd bod angen gwell dealltwriaeth o oblygiadau pob opsiwn ;
- Gofynnwyd am eglurhad ar nifer o ddiffiniadau e.e. ydy'r trefniadau presennol yn cynnwys y cyfleusterau hynny y mae ganddynt ganiatâd cynllunio neu ydy hi'n cynnwys trefniadau sydd ar y gweill; a
- Chofnodwyd y dylid gohirio'r Strategaeth MSW er mwyn ystyried y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol – dylai Asiantaeth Llywodraeth Leol Cymru gysylltu â Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Wedyn, cytunwyd ar y canlynol.

- SLR i ysgrifennu papur cyfarwyddo sy'n egluro'r diffiniadau a ddefnyddir yn Nhablau 8-19 erbyn 8fed Ebrill;
- Bydd yn rhaid anfon unrhyw sylwadau ar y Tablau ymlaen erbyn dydd Gwener 11eg Ebrill. Yn dibynnu ar yr ymateb, bydd y sylwadau'n cael eu cynnwys mewn adolygiad o'r Asesiad, ac fel arall yn cael eu trafod yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Technegol.
- SLR i gynhyrchu adroddiad diwygiedig erbyn dydd Mercher 16eg Ebrill, gan ystyried unrhyw sylwadau a wnaed, darparu tabl ychwanegol y gellid ei ddefnyddio i gymharu opsiynau gydag ymrwymiadau presennol, yn ogystal ag esbonio'r Dadansoddiad Sensitifrwydd yn adran 11; a bod
- Fforwm yr Aelodau, a oedd i fod i gwrdd ar ddydd Gwener 25ain Ebrill, yn cael ei ohirio er mwyn i'r Grŵp Technegol gwrdd unwaith eto. Bydd GW yn cysylltu â'r Cynghorydd P. Palmer (Ad-drefnir hyn nawr ar gyfer dydd Llun 19eg Mai am 10.00am).

5. Fframwaith Ymgynghori â'r Cyhoedd

Amlinellodd GW gynnwys y Fframwaith Ymgynghori arfaethedig a hysbysu'r Grŵp bod y cyfarfod cyntaf wedi'i gynnal eisoes gyda Rhanbarth De-ddwyrain Cymru i drafod trefniadau gweithio ar y cyd.

Cofnodwyd cefnogaeth i weithio ar y cyd a nodwyd y sylwadau canlynol.

- Dylid ystyried y gofyn posibl i esbonio wrth y cyhoedd pam mae pob ardal wedi penderfynu ar ddau 'opsiwn dewisol' sy'n gwbl wahanol.
- Dylid codi ymwybyddiaeth gyda thaflenni/ posteri ac ati cyn cyrraedd y pwynt lle mae'n rhaid ystyried y Cynllun Rhanbarthol Drafft; a
- Dylai Grŵp yr Aelodau benderfynu a oes angen cynhyrchu gwybodaeth ymgynghori'n ddwyieithog.

6. Gwefan

Hysbysodd GW fod y wefan ar gyfer y De-orllewin ar fin cael ei chwblhau a bod gwefan Gogledd Cymru'n fyw a gellid dod o hyd iddi ar www.walesregionalwasteplans.gov.uk

7. Dyddiad cyfarfod nesaf y Grŵp Technegol

Cytunwyd y cynhelid cyfarfod nesaf y Grŵp Technegol am 2.00pm dydd Llun 28ain Ebrill 2003, yng Nghanolfan Ddinesig Penllergaer.

8. Unrhyw fusnes arall

Ni chodwyd unrhyw fusnes arall.